

Cofnod Cyfarfod Awdurdod S4C
14 Chwefror 2013, S4C, Llanisien, Caerdydd

Cyfarfod Rhif 363

| | | |
|---------------------|----------------------|---|
| Presennol: | Huw Jones | (Cadeirydd) |
| | John Davies | (Aelod o'r Awdurdod) |
| | Aled Eirug | (Aelod o'r Awdurdod) |
| | Dyfrig Jones | (Aelod o'r Awdurdod) |
| | Glenda Jones | (Aelod o'r Awdurdod) |
| | Marian Wyn Jones | (Aelod o'r Awdurdod) |
| | Rheon Tomos | (Aelod o'r Awdurdod) |
| | Elan Closs Stephens | (Aelod o'r Awdurdod) |
| Staff S4C: | Ian Jones | (Prif Weithredwr) |
| | Garffild Lloyd Lewis | (Cyfarwyddwr Cyfathrebu) |
| | Elin Morris | (Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol) |
| | Kathryn Morris | (Cyfarwyddwr Cyllid) |
| | Dafydd Rhys | (Cyfarwyddwr Cynnwys) |
| | Carys Evans | (Pennaeth Ymchwil) <i>(Eitem 6 & 8 yn unig)</i> |
| | Phil Williams | (Ysgrifennydd yr Awdurdod) |
| | Sarah-Jane Pritchard | (Cynorthwy-ydd i Ysgrifennydd yr Awdurdod) |
| Hefyd yn bresennol: | Emyr Byron Hughes | <i>(Eitem 6 yn unig)</i> |
| Ymddiheuriadau: | Carol Bell | (Aelod o'r Awdurdod) |

Sylwadau agoriadol

Croesawodd y Cadeirydd bawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth CB.

1. Datganiad o ddiddordeb

Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb. Ni chafwyd unrhyw ddatganiad.

Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.

2. Cofnodion cyfarfod 362

2.1 Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod rhif 362.

Cymeradwyodd yr Awdurdod y cofnodion.

2.2 Materion yn codi o gofnodion rhif 362

Nodwyd y canlynol:

2.2.1 Chwaraeon

Nodwyd bod y drafodaeth gydag Undeb Rygbi Cymru i ymestyn darpariaeth cystadleuaeth Rygbi'r Colegau yn parhau.

2.2.2 Adroddiad Ariannol

[**Crynodeb:** Cyflwynodd KM ei Adroddiad Ariannol i'r Awdurdod.]

3. Cofnodion cyfarfod arbennig (10 Ionawr 2013)

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd er mwyn cymeradwyo'r Cytundeb Gweithredu rhwng Awdurdod S4C ac Ymddiriedolaeth y BBC.

Cymeradwyodd yr Awdurdod y cofnodion.

4. Materion yn codi o'r Diwrnod i Drafod (10 Ionawr 2013)

4.1 Cyflwynodd y Cadeirydd gynodeb o brif bwyntiau'r Diwrnod i Drafod.

4.2 Cafwyd trafodaeth am ddenu siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn gwyllo S4C ar hyn o bryd. Nodwyd bod swyddogion yn ystyried sawl ffordd i ddenu gwylwyr yn ôl i S4C gan gynnwys ystyried hyrwyddo'r sianel a chywair ieithyddol rhaglenni.

4.3 Awgrymwyd y gallai Aelodau'r Awdurdod gynorthwyo'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr wrth gynrychioli S4C mewn digwyddiadau a hyrwyddo gwaith S4C i fudiadau ledled Cymru. Bydd swyddogion yn ystyried cyfleoedd er mwyn gwneud hyn.

4.4 Roedd yr Awdurdod yn awyddus i barhau'r trafodaethau am bynciau a godwyd yn y Diwrnod i Drafod. Penderfynwyd clustnodi'r awr olaf o bob cyfarfod yr Awdurdod yn y dyfodol er mwyn trafod pwnc penodol.

5. Adroddiad y Cadeirydd

5.1 Cyhoeddi'r Cytundeb Gweithredu

Nodwyd bod y Cytundeb Gweithredu rhwng Awdurdod S4C ac Ymddiriedolaeth y BBC wedi'i gyhoeddi ar 30 Ionawr. Diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith yn ystod y broses o negydu'r cytundeb gydag Ymddiriedolaeth y BBC.

5.2 Dadl Westminster Hall i nodi Pen-blwydd S4C yn 30 oed

Cynhaliwyd dadl yn Westminster Hall i nodi Pen-blwydd S4C yn 30 oed ar 31 Ionawr. Cafwyd cyfraniadau cefnogol a phersonol gan aelodau o bob plaid ac ymateb positif gan y Gweinidog, Ed Vaizey.

6. Adroddiad y Prif Weithredwr

6.1 Cyflwynodd IHJ ei adroddiad ysgrifenedig.

6.2 Ail-strwythuro

Rhoddodd IHJ ddiweddariad am y broses ail-strwythuro a nodwyd bod staff bellach wedi symud i'r drefn newydd o weithio mewn timau.

Cafwyd trafodaeth am y cyfarfod gyda chynrychiolwyr staff a gynhaliwyd yn gynharach yn ystod y dydd.

Cyfeiriwyd hefyd at yr angen i adrodd ar waith yr Awdurdod i'r cyhoedd. Roedd ystyriaeth wedi ei roi yn ystod 2012 i ddatblygu ffyrdd amgen o gyflwyno gwybodaeth i'r cyhoedd, ond nid oedd unrhyw argymhellion wedi eu cyflwyno i'r Awdurdod. Bydd

ystyriaeth bellach yn cael ei roi i hyn fel rhan o ystyried gofynion gwybodaeth yr Awdurdod.

6.3 Cyllid DCMS/Cyfnod Ariannol 15 mis

[**Crynodeb:** Cafwyd diweddariad ar safbwynt y DCMS ac Ymddiriedolaeth y BBC tuag at y newid i flwyddyn ariannol S4C.]

6.4 Ansawdd ¾ ar Freeview

Cyflwynodd IHJ ddiweddariad ar y problemau gydag ansawdd y llun ar wasanaeth S4C ar Freeview. Roedd y Wifren wedi derbyn nifer o gwynion ynglŷn ag ansawdd y llun yn ystod gemau rygbi rhyngwladol.

[**Crynodeb:** Bellach S4C yw'r unig ddarlledwr cyhoeddus sy'n darlledu yn ansawdd ¾. Cyfeiriwyd at y cytundeb gwreiddiol gan nodi fod S4C yn ceisio symud at ansawdd llawn.]

6.5 Adroddiad ar fesur cynulleidfa

[**Crynodeb:** Yn dilyn cyflwyniad gan EBH trafodwyd mesuryddion addas ar gyfer Cyw. Awgrymodd EBH fesuriadau addas i'w hystyried ymhellach gan y swyddogion cyn eu hargymell i'r Awdurdod.]

Diolchwyd i EBH am ei gyflwyniad.

6.6 BARB

[**Crynodeb:** Eglurwyd y newidiadau a gyflwynir gan BARB i'r Panel Gwyllo ar ddechrau Mawrth.]

6.7 Buddsoddiadau'r Gronfa Ddigidol

[**Crynodeb:** Diweddarwyd yr Awdurdod ar fuddsoddiadau'r Gronfa Ddigidol.]

6.8 Allanoli Darlledu – Diweddariad

[**Crynodeb:** Cyflwynodd IHJ ddiweddariad am y gwaith dichonolrwydd am allanoli darlledu.]

6.9 BBC

Nodwyd bod gwaith dichonolrwydd cydleoli'r Bwrdd Partneriaeth ar y cyd yn parhau. Cyflwynir adroddiad cynnydd i'r Awdurdod ym mis Ebrill.

6.10 BECTU

[**Crynodeb:** Trafodwyd materion cyflogau.]

6.11 Bwrdd Masnachol

Nodwyd bod Gwyn Roberts wedi derbyn gwahoddiad i ymuno â'r Bwrdd Masnachol fel cyfarwyddwr anweithredol.

6.12 **iPlayer**

[**Crynodeb:** Rhoddodd IHJ ddiweddariad am y trafodaethau ynghylch iPlayer. Cymeradwyodd yr Awdurdod gais y Prif Weithredwr i barhau â'r trafodaethau.]

7. **Adroddiad y Cyfarwyddwr Cynnwys**

[**Crynodeb:** Cyflwynodd DRh ei adroddiad ysgrifenedig yn ymwneud ag arlwy S4C dros y ddau fis diwethaf.]

8. **Cyflwyniad Ymchwil diwedd y flwyddyn 2012 ac Adroddiadau Ymchwil Misol Ionawr a Chwefror**

[**Crynodeb:** Rhoddodd CEv gyflwyniad ar berfformiad gwasanaeth S4C yn ystod 2012. Cafwyd trafodaeth benodol am effaith rhaglenni chwaraeon byw ar gyrhaeddiad.]

9. **Adroddiad y Cyfarwyddwr Cyfathrebu**

Cyflwynodd GLL ei adroddiad ysgrifenedig a chyfeiriodd at y pynciau isod:

9.1 **Yn eich cymuned**

Cynhaliwyd cyfarfod gyda grŵp o bobl yng Ngwm Gwendraeth er mwyn trafod ymgyrch arfaethedig S4C yn yr ardal. Derbyniwyd adborth yn awgrymu y byddai'n well gan bobl y cwm i S4C fynychu digwyddiadau sydd eisoes yn bodoli yn hytrach na threfnu noson gwylwyr benodol. Awgrymwyd y gellid ystyried trefnu cyfres o ddigwyddiadau llai yn yr ardal yn lle un Noson Gwylwyr arferol.

Cynhelir cyfarfod tebyg yn Y Bala wythnos nesaf. Mae problemau wedi bod yn ddiweddar gyda darlledu S4C yn ardal Y Bala. Bydd y cyfarfod yn gyfle i roi diweddariad i bobl am y sefyllfa dechnegol.

9.2 **Adleoli**

Nodwyd bod y gwahoddiad i fynegi diddordeb mewn trafod cyd-leoli gydag S4C ar draws Cymru wedi'i gyhoeddi ac eisoes mae ymateb positif wedi ei dderbyn.

9.3 **Llanelwedd**

[**Crynodeb:** Trafodwyd materion yn ymwneud ag adeilad S4C ar faes y Sioe yn Llanelwedd.]

9.4 **Is-deitlau**

Cyfeiriwyd at ddiffyg gwybodaeth am is-deitlau yn ystod rhaglenni. Ar hyn o bryd mae gwybodaeth ar gael ar ddechrau rhaglenni yn unig. Bwriedir cynnal arbrawf i ddangos arwydd isdeitlau ar ddechrau'r rhaglen a chyn ac ar ôl pob egwyl er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth am y gwasanaeth is-deitlau.

9.5 **Trydar**

Nodwyd bod detholiad o drydar wedi eu cynnwys yn yr Adroddiad Wifren er mwyn rhoi blas i'r Awdurdod am y math o drafod sy'n digwydd o amgylch cynnwys S4C.

10. **Adroddiad Ariannol**

Cyflwynodd KM ddiweddariad ar yr adroddiad ariannol.

10.1 Cyfeiriwyd at y broses ailstrwythuro. Nodwyd y bydd holl gostau'r ailstrwythuro wedi eu cyflawni o fewn blwyddyn 2012.

10.2 Bydd yr archwilwyr allanol yn archwilio'r cyfrifon ym mis Ebrill.

10.3 Cafwyd trafodaeth am y prosiect i dderbyn rhaglenni o'r cwmnïau cynhyrchu heb ddefnyddio tapiau. Bydd swyddogion yn adrodd i'r Awdurdod am gost y prosiect a manteision ariannol y prosiect er mwyn rhoi gwell dealltwriaeth o oblygiadau ariannol y prosiect i gwmnïau ac i S4C.

11. **Adroddiad o'r Pwyllgor Cynnwys**

Cyflwynodd AE adroddiad ysgrifenedig y Pwyllgor Cynnwys.

12. **Cymeradwyo Datganiad Polisi Cynnwys S4C 2013**

Cyflwynwyd Datganiad Polisi Cynnwys S4C ar gyfer 2013. Nodwyd bod y datganiad drafft wedi'i drafod gan y Pwyllgor Cynnwys yn ei gyfarfod diwethaf ac wedi'i addasu i adlewyrchu argymhellion y Pwyllgor.

Cymeradwyodd yr Awdurdod Ddatganiad Polisi Cynnwys S4C ar gyfer 2013.

13. **Cymeradwyo Adolygiad Datganiad Polisi Cynnwys S4C 2012**

Cyflwynwyd Adolygiad Datganiad Polisi Cynnwys S4C ar gyfer 2012. Nodwyd mai diben yr adroddiad yw adrodd i Ofcom yn erbyn Datganiad Polisi Cynnwys blwyddyn ddiwethaf.

Cymeradwyodd yr Awdurdod Adolygiad Datganiad Polisi Cynnwys S4C 2012.

14. **Adroddiad o'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg**

Cyflwynodd RhT adroddiad llafar yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd yn gynharach.

Roedd y Pwyllgor wedi derbyn nifer o adroddiadau oddi wrth yr archwilwyr mewnol, gan gynnwys eu hadroddiad blynyddol. Roedd y Pwyllgor wedi gofyn i'r archwilwyr ddarparu rhagor o wybodaeth am eu barn am brosesau sicrwydd S4C yn ystod 2012.

[**Crynodeb:** Trafodwyd argymhellion adroddiad Shortridge. Mae nifer bach yn ddibynnol ar gymeradwyo'r Cytundeb Gweithredu gydag Ymddiriedolaeth y BBC.]

15. **Adroddiad o'r Bwrdd Masnachol**

[**Crynodeb:** Cyflwynwyd adroddiad o gyfarfod y Bwrdd Masnachol gan y Cadeirydd]

16. **Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth a Gwifren Gwylwyr**

16.1 [**Crynodeb:** Diweddarwyd yr Awdurdod ar y cwynion cyfredol.]

16.2 Cyflwynwyd adroddiadau'r Wifren. Nodwyd nad oedd yr adroddiad yn nodi cwynion am broblemau technoleg ar wahân ar hyn o bryd. Bydd hyn yn cael ei addasu ar gyfer

cyfarfod nesaf yr Awdurdod.

17. **Unrhyw fater arall**

Nodwyd y caiff rhaglen waith yr Awdurdod ei ddiweddarau unwaith bydd rhaglen waith y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg wedi'i ddiweddarau.

18. **Dyddiad y cyfarfod nesaf:**

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 14 Mawrth 2013 yng Nghaerdydd.